Y Parch. A. Wayne Hughes
1960 – 2011

Ym mis Medi 1982 dechreuoedd Wayne Hughes ar ei weinidogaeth yn Jerwsalem a Bethania Blaenau Ffestiniog . Bu yno am 29 mlynedd yn weinidog ffyddlon *dros y cyfnod cyfan. Pregethu cyson, ymweld diflino i fugeilio'n ofalus,* cynghori doeth a llawer o gymwynasau tawel diffwdan oedd nodweddion hardd y weinidogaeth ar ei hyd.

Yn y dyddiau cynnar roeddwn yn ymweld â Wayne ar fy nheithiau o'r De i'r Gogledd a chefais fy hun mewn ambell gwrdd gweddi a seiat, gan weld tynerwch a doethineb Wayne wrth arwain. Wedyn mynd adre i'r Mans ac mewn sgwrs a gweddi yn darganfod cymaint oedd cariad a baich Wayne dros yr ofalaeth. Mewn llythyr a dderbyniodd Hazel ei wraig oddi wrth un o'r aelodau, tystia i'r fendith a gafodd o weinidogaeth feiblaidd a duwiol ei weinidog. Dywedodd hefyd 'roedd yn un ohonom ni – pobl y Blaenau!' Tipyn o anrhydedd gan fod Wayne yn hwntw o'r iawn ryw!

Roedd ei adnabyddiaeth drwyadl o emynyddiaeth ein gwlad yn anhygoel. Derwyn Morris- Jones – cyn-ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr – sy'n nodi hyn yn ei gyflwyniad i gyfrol Wayne, Emynau Ffydd 2: 'Darganfu sawl un sy'n ei adnabod fod ei wybodaeth am emynyddiaeth Cymru yn ddigon o ryfeddod. Droeon, a minnau'n cofio llinell rhyw emyn ond yn fy myw yn methu cofio mwy na hynny, cawn yr emyn yn gyfan ganddo ef!'

Lle bynnag roedd yr efengyl yn uno'r saint mewn gwir gymdeithas roedd Wayne yn llawen yn eu cwmni. Doedd terfynau enwadol yn ddim iddo pan fyddai gwir Gristnogion yn cwrdd. Efengylwr heb gywilydd oedd Wayne. Bu ar lawer ymgyrch efengylaidd yn yr Eisteddfod, ac mewn encil a chynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru roedd ei bresenoldeb a'i gyfraniad yn fendith ac yn foddion gras. Roedd ei hiwmor naturiol a'i ffraethineb craff mewn sgwrs yn donic ac yn fodd i ysgafnhau unrhyw drymder sych. Bu'n ysgrifennydd i'r Gynhadledd Flynyddol a Chynhadledd y Gweinidogion ac wrth ei fodd yn arwain Gwyliau Tegid yn y Bala. Roedd Wayne yn gerddor dawnus ac yng Ngwyliau Tegid y doniau yma a gysegrwyd i'r Arglwydd fu'n gyfrwng bendith i laweroedd. Roedd yn Brotestant ac yn Annibynnwr brwd a ffyddlon a bu ei gyfranaid i'r enwad ac i egwyddorion beiblaidd anghydfurffiaeth yn selog a chywir.

Bu cefnogaeth Hazel i Wayne ac i waith y capeli yn dystiolaeth glodwiw yn y Blaenau ar hyd y blynyddoedd. Dangosodd y ddau urddas, dewrder a realiti gras cynhaliol Duw trwy brofedigaeth ddwys. Gwyddom fod cwrteisi, sirioldeb di-g yn a gwerthfawrogiad Wayne ynghyd â chyfleoedd pwrpasol i dystio i'w Arglwydd wedi creu argraff fawr ar staff Hosbis Bryngwyn, Llanelli. Gweddïwn am nerth a nodded y nef i Hazel ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Cofiwn hefyd am ddyfodol gwaith y deyrnas yn ardaloedd y Blaenau. Boed i Arglwydd y cynhaeaf godi eto weithiwyr i'r efengyl gyda'r un ffyddlondeb a dyfalbarhad â Wayne Hughes.

Meirion Thomas

Datguddiad 22:1 – *Yna dangosodd yr angel imi afon dŵr bywyd, yn ddisglair fel grisial, yn llifo allan o orsedd Duw a'r Oen.*

Mae Ioan yn symud ymlaen o'r afon a'r goeden at yr orsedd. Mae'r orsedd yng nghanol y greadigaeth, gyda phob bywyd yn ddarostyngedig, a bydd pob bywyd yn ddarostyngedig i reolaeth Duw. Ymhellach bydd ei weision yn ei addoli a 'chânt weld ei wyneb' (ad.4). Y cyfan y mae'r ddynoliaeth wedi ei weld hyd yma yw gogoniant Duw. Rydym wedi gweld ei ogoniant ym mherson a gwaith ei Fab ymgnawdoledig. Ond un diwrnod, bydd y gorchudd yn cael ei godi a 'chawn ei weld ef fel y mae' (I Ioan 3:2). Mae'r weledigaeth hon yn rhan hanfodol o bwrpas terfynol Duw ar gyfer ei bobl.

John Stott (cyf.Meirion Morris)
Drwy'r Beibl Drwy'r Flwyddyn (Pwllheli: Cyhoeddiadau'r Gair, 2010), 428.